Public and Commercial Services Union | pcs.org.uk PCS

PCS Cymru/Wales
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HA

Ffôn: 029 2066 6363
E-bost: wales@pcs.org.uk

25 Ebrill 2022

Owain Roberts, Clerc
Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Dros e-bost

Annwyl Owain a Peredur

**Defnydd cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru o'r broses 'diswyddo ac ailgyflogi'**

Rwy'n ysgrifennu ar ran y PCS i dynnu sylw at bryderon yr undeb ynghylch bygythiad dau sefydliad y mae'r Pwyllgor Cyllid yn eu goruchwylio i ddefnyddio'r broses 'diswyddo ac ailgyflogi'.

Ym mis Ionawr, nododd Archwilio Cymru y byddai'n diswyddo ac yn ailgyflogi unrhyw aelod o staff a allai wrthod rhoi caniatâd i newid penodol yn eu contract – yn benodol, dileu lwfans teithio – er gwaethaf y gwrthwynebiadau cryf i'r dull hwn a godwyd gan PCS ar y pryd. Er nad oes yr un o weithwyr Archwilio Cymru wedi'i ddiswyddo, gan fod y mwyafrif llethol yn y pen draw wedi cydsynio i'r newid, fodd bynnag yn anfoddog, roedd y dull a ddefnyddiwyd gan y cyflogwr i'w weld yn gosod cynsail gwael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, lle, fel y gwyddoch, mae gan Lywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd wrthwynebiad cryf yn erbyn defnyddio'r broses 'diswyddo ac ailgyflogi'.

Bellach, mae ail gorff sector cyhoeddus Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn mabwysiadu'r un dull gweithredu. Y mater ar yr achlysur hwn yw israddio swyddi penodol yn strwythur y sefydliad. Ymgynghorwyd â'r PCS ond ni allem gytuno bod y newid arfaethedig naill ai'n deg neu'n angenrheidiol. Felly, mae'r rheolwyr

wedi ysgrifennu at y rhai yr effeithir arnynt i ofyn iddynt dderbyn yr israddio, ar y sail y gallai gwrthod arwain at eu diswyddo a chynnig eu hail-gyflogi ar raddfa is. Er mai dim ond pedwar aelod o staff sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol, mae egwyddor bwysig yma ac, yn fwy na hynny, rydym yn canfod dechrau tuedd annymunol, a allai fod yn gysylltiedig â'r trafodaethau rheolaidd y gwyddys eu bod yn digwydd rhwng rheolwyr Adnoddau Dynol y gwahanol gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae PCS wedi gwneud swyddfa'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'n pryder ynghylch posibilrwydd diswyddo ac ailgyflogi a'r siom a deimlir gan ein haelodau ynghylch y syniad y gallent gael eu gorfodi i gytuno ar newid niweidiol i'w contract cyflogaeth. Rydym wedi dweud nad ydym yn teimlo bod pob dull o negodi wedi'i archwilio ac rydym wedi gofyn am eglurhad am y dull gweithredu digyfaddawd a ddefnyddir gan y rheolwyr. Rydym wedi nodi bod defnyddio'r broses o ddiswyddo ac ailgyflogi nid yn unig wedi cael ei gondemnio gan Lywodraeth Cymru ac Aelodau eraill o'r Senedd, ond ei fod hefyd yn groes i ganllawiau ACAS, sy'n datgan "na ddylai cyflogwyr byth fygwth gweithwyr na'u cynrychiolwyr i geisio eu gorfodi i gytuno i newid contract" gan fod "unrhyw weithred, iaith neu ymddygiad bygythiol yn debygol o niweidio ymddiriedaeth, morâl a chysylltiadau gwaith mewn sefydliad yn sylweddol." Ar ben hynny, mae Llywodraeth y DU hefyd newydd gyhoeddi cod statudol newydd ar ddiswyddo ac ailgyflogi, sy'n hysbysu cyflogwyr ei bod yn annerbyniol defnyddio'r bygythiad o ddiswyddo ac ailgyflogi fel tacteg negodi i orfodi newidiadau i gontractau cyflogaeth a bod yn rhaid defnyddio pob opsiwn posibl cyn ystyried diswyddo ac ailgyflogi staff.

Ym marn PCS, mae "diswyddo ac ailgyflogi" yn arfer annerbyniol nad oes lle iddo yn y gymdeithas fodern, ac mae ei ddefnydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, yn peryglu ymddiriedaeth o fewn y sefydliad yn ddifrifol ac yn debygol o arwain at niwed i enw da.

Yng ngoleuni'r defnydd o'r dull hwn gan ddau gorff sy'n atebol i'ch pwyllgor, gofynnaf ichi adolygu'r datblygiadau hyn ac ystyried a ydynt yn gyson ag ethos partneriaeth gymdeithasol y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac yn cydymffurfio â safonau disgwyliedig o lywodraethu da.

Yn gywir



**Darren Williams**
**Swyddog Cenedlaethol Cymru a'r De-orllewin**